Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru (Rhagfyr 2022)

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 24 Ebrill 2023
Equality and Social Justice Committee | 24 April 2023

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ..... 2**

**1. Cefndir ..... 3**

**2. Yr ystadegau chwarterol diweddaraf ..... 3**

Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2022 ..... 3

Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2022 ..... 3

Canlyniadau llwyddiannus ..... 3

**3. Dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog: ail gais i aros 4**

Troi statws preswylydd cyn-sefydlog yn statws preswylydd sefydlog ..... 6

Dyfarnwyd bod colli hawliau'n awtomatig yn anghyfreithlon ..... 7

**4. Ceisiadau hwyr ..... 8**

**5. Ceisiadau hwyr ..... 8**

**2. Cymorth gan Lywodraeth Cymru ..... 9**

**6. Wcráin ..... 9**

**7. Y camau nesaf ..... 9**

# 1. Cyflwyniad

Cynllun Llywodraeth y DU yw’r Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun); rhaid i ddinasyddion Ewrop wneud cais iddo er mwyn aros yn y DU ar ôl Brexit.

Mae hawliau dinasyddion yn rhannau allweddol o gytundebau y daethpwyd iddynt rhwng y DU, yr UE a gwledydd Ewropeaidd eraill fel rhan o Brexit. Mae hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU yn cael eu gwarantu gan gytundebau â’r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a’r Swistir.

Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru gadw at y cytundebau hyn ac mae Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud â’r Cynllun yng Nghymru.

Caiff ystadegau ar y ceisiadau i'r Cynllun eu cofnodi gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddir ystadegau lefel uchel bob mis a chyhoeddir ystadegau manwl, gan gynnwys data ar gyfer Cymru, bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ystadegau’r Cynllun sy'n ymwneud â Chymru hyd at 31 Rhagfyr 2022. Darperir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor er mwyn ei helpu i fonitro’r mater hwn.

# 1. Cefndir

Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, roedd yn rhaid i ddinasyddion Ewrop a oedd yn byw yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020 wneud cais i aros erbyn 30 Mehefin 2021.

Mae hyn yn gymwys i ddinasyddion Aelod-wladwriaethau'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir ond nid dinasyddion Iwerddon, sydd wedi'u heithrio dan drefniadau ar wahân. Nid yw nifer y dinasyddion o'r gwledydd hyn sy'n byw yn y DU yn hysbys, sy'n golygu nad oes neb yn gwybod faint o geisiadau y dylid eu disgwyl.

Ers ei lansio, mae bron 7 miliwn o geisiadau wedi'u cyflwyno i'r Cynllun. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn-sefydlog'. Am gefndir, gweler erthygl flaenorol gan Ymchwil y Senedd.

# 2. Yr ystadegau chwarterol diweddaraf

## Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2022

Hyd at 31 Rhagfyr, roedd 111,960 o geisiadau wedi dod i law o Gymru, gan gynnwys 19,690 o geisiadau ar gyfer y rhai o dan 18 oed. Er, yn ôl yr amcangyfrifon, roedd angen i 95,000 o ddinasyddion cymwys wneud cais.

## Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 31 Rhagfyr 2022

Cafwyd penderfyniad ar gyfer 109,690 o geisiadau erbyn y terfyn amser ar gyfer yr adroddiadau ystadegol a chyfeirir atynt fel 'ceisiadau a gwblhawyd'.

## Canlyniadau llwyddiannus


Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws 'preswylydd sefydlog' neu statws 'preswylydd cyn-sefydlog'. Caiff dinasyddion sy'n breswylwyr sefydlog a'r rhai sy'n breswylwyr cyn-sefydlog weithio yn y DU, a bydd gwasanaethau gofal iechyd, addysg ac arian cyhoeddus ar gael iddynt. At hynny, cânt deithio i'r DU ac oddi yno a gwneud cais am ddinasyddiaeth. Fodd bynnag, ni chaiff dinasyddion â statws cyn-sefydlog ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â hwy.

Ers i'r Cynllun agor, **mae 55.9% o ymgeiswyr yng Nghymru wedi cael statws preswylydd sefydlog** hyd at 31 Rhagfyr 2022 ac **mae 35.5% wedi cael statws preswylydd cyn-sefydlog**.

Cofnodir ceisiadau aflwyddiannus hefyd. O Gymru, cafodd 4.6 y cant eu gwrthod (5,010 o geisiadau a gwblhawyd), cafodd 2.1 y cant eu tynnu yn ôl neu roeddent yn amhendant (2,290 o geisiadau a gwblhawyd), ac roedd 2.0 y cant yn annilys (2,180 o geisiadau a gwblhawyd).

Mae'r ffeithlun isod yn dangos canran a nifer y ceisiadau o Gymru. Mae'n dangos a gawsant eu cyflwyno cyn/ar ôl y dyddiad cau, a benderfynwyd yn eu cylch ("a gwblhawyd" y cais) ai peidio, ac mae'n dangos canlyniad y ceisiadau gan ddinasyddion Ewrop yng Nghymru hyd at 31 Rhagfyr 2022.

**Ceisiadau i'r Cynllun o Gymru yn ôl dyddiad, ceisiadau a gwblhawyd a chanlyniadau gan ddangos y canrannau a'r niferoedd:**





Ffynhonnell: **Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Setliad yr UE, Rhagfyr 2022.** Mae'r niferoedd yn cael eu talgrynnu i'r 10 agosaf felly mae'n bosibl na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfansymiau cyffredinol.Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Setliad yr UE, Rhagfyr 2022

# 3. Dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog: ail gais i aros

Daw statws preswylydd cyn-sefydlog i ben ar ôl pum mlynedd, ac mae'n rhaid ei droi'n statws preswylydd sefydlog drwy gyflwyno ail gais. Mae hyn yn golygu y

bydd angen i'r 38,940 o ddinasyddion a gafodd statws preswylydd cyn-sefydlog wneud cais arall os ydynt am aros yng Nghymru ar ôl y terfyn amser.

Mae'r map isod yn dangos nifer y dinasyddion â statws cyn-sefydlog yn ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru:




## Troi statws preswylydd cyn-sefydlog yn statws preswylydd sefydlog

Mae'r nifer sy'n gwneud cais i droi eu statws cyn-sefydlog yn statws sefydlog yn cael eu cofnodi mewn ystadegau ar geisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno ar gyfer y DU gyfan.

Mae'r rhain yn dangos bod 479, 390 o ddinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog wedi newid eu statws i fod yn breswylwyr sefydlog. Ni chaiff gwybodaeth ei chofnodi fesul gwlad yn y DU. Gan hynny, nid ydym yn gwybod faint o geisiadau a gyflwynwyd gan ddinasyddion yng Nghymru sydd â statws preswylio cyn-sefydlu ac sy'n ceisio'i newid.

Os nad yw person yn ailgymgeisio, bydd yn colli'r hawl i weithio, i gael tŷ, addysg a budd-daliadau'n awtomatig, ac mae'n bosibl y caiff ei symud o'r DU.

## Dyfarnwyd bod colli hawliau'n awtomatig yn anghyfreithlon

Ar 21 Rhagfyr 2022, dyfarnodd yr Uchel Lys fod y gofyniad i gyflwyno ail gais er mwyn uwchraddio i statws preswylydd sefydlog yn anghyfreithlon. Ni fydd Llywodraeth y DU yn apelio yn erbyn y penderfyniad a rhaid iddi newid y Cynllun yn unol â chyfarwyddyd y Llys.

Y corff sy'n gyfrifol am fonitro hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU, sef yr Awdurdod Monitro Annibynnol (IMA) ddaeth â'r achos cyfreithiol yn erbyn Llywodraeth y DU, a hynny yn 2022.

Yn dilyn y dyfarniad, cyhoeddodd yr Awdurdod ddatganiad i'r wasg yn crynhoi'r dyfarniad fel a ganlyn:

1. a right of residence can only be lost in very specific circumstances which are clearly defined in the EU Withdrawal and EEA EFTA Separation Agreements. A loss of rights for failure to upgrade from pre-settled to settled status was not one of those circumstances, and so by imposing a requirement to upgrade residence status the Home Office was acting unlawfully; and that

2. those granted pre-settled status are entitled to reside permanently in the UK once they have resided there for the required five-year period.


Tra bo'r broses farnwrol yn parhau, cyngor yr Awdurdod yw y dylai dinasyddion â statws preswylydd cyn-sefydlog barhau i gyflwyno ail gais er mwyn ei droi'n statws preswylydd sefydlog, pan fyddant yn gymwys.

# 4. Ceisiadau hwyr

Mae'r Cynllun yn parhau i fod ar agor ar gyfer ceisiadau hwyr, a ganiateir os oes gan unigolyn sail resymol dros fethu'r dyddiad cau. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhiant sydd wedi methu â gwneud cais ar ran plentyn neu berson â chyflwr meddygol difrifol. Mae Llywodraeth y DU wedi addo diogelu hawliau'r rhai sydd â sail resymol dros fethu'r dyddiad cau.

Cynyddodd nifer y ceisiadau hwyr o Gymru i 12,100 ddiwedd mis Rhagfyr o'i gymharu â 10,150 ddiwedd mis Medi 2022. Mae ystadegau misol yn dangos bod nifer debyg o geisiadau hwyr ym mis Hydref, sef 810 ym mis Medi, cyn gostwng i 700 ym is Tachwedd a 440 ym mis Rhagfyr, fel y gwelir yn y graff isod.

**Y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru** (Rhagfyr 2022)




Ffynhonnell: **Ystadegau chwarterol Llywodraeth y DU ar gyfer Cynllun Setliad yr UE, Rhagfyr 2022**

# 5. Ceisiadau hwyr

Os nad yw person wedi gwneud cais i'r Cynllun ac mae'n dod i sylw awdurdodau'r DU, bydd yn cael hysbysiad 28 diwrnod i wneud cais. Dywed Llywodraeth y DU na fydd pobl nad ydynt wedi gwneud cais ar ôl yr hysbysiad 28 diwrnod yn gymwys i gael gwaith, budd-daliadau na gwasanaethau ac na fyddant yn pasio gwiriadau tenantiaeth.

Mae'n bosibl y cymerir camau gorfodi yn eu herbyn, er bod Llywodraeth y DU yn pwysleisio na fyddant yn cael eu hallgludo'n awtomatig.

# 2. Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Ers 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi gwario dros £2.7 miliwn i ddarparu gwasanaethau cyngor a chymorth am ddim i'r rhai sy'n gwneud cais i'r Cynllun, ac mae hyn wedi'i ymestyn yn rheolaidd.

Ar 23 Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddatganiad yn egluro:

- Bydd £200 mil ychwanegol yn cael ei roi i Gyngor ar Bopeth a Settled er mwyn iddynt barhau i ddarparu'r cymorth hwn ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
- Bydd cytundeb Newfields Law hefyd yn cael ei ymestyn am 6 mis ychwanegol er mwyn eu galluogi i gefnogi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol gyda threfniadau recriwtio o dramor, a bydd yn cynnwys cymorth pellach ar gyfer ceisiadau EUSS.

# 6. Wcráin

Fel rhan o'r mesurau a gymerwyd mewn ymateb i ymosodiad Rwsia ar Wcráin, gofynnodd y Prif Weinidog i Brif Weinidog y DU ymestyn y dyddiad cau ar gyfer trwyddedau teulu dan y Cynllun i ganiatáu i bobl o Wcráin sy'n aelodau teulu dinasyddion Ewropeaidd cymwys ddod i'r DU. Ni chafodd y cynllun ei estyn y tu hwnt i'w derfyn amser, sef 29 Mawrth 2022. Wedi hynny, defnyddir y meini prawf 'sail resymol' sy'n gymwys i ymgeiswyr hwyr.

Mae ystadegau'r Cynllun yn dangos bod 14,140 o Wcraniaid wedi gwneud cais i'r Cynllun hyd at 31 Rhagfyr, a bod 13,880 wedi cael penderfyniad. Nid yw gwybodaeth am wledydd unigol y DU ar gael.

Fodd bynnag, cadarnhaodd Llywodraeth y DU wrth Lywodraeth Cymru yn ddiweddar fod 80 o geisiadau gan bobl a nododd eu bod yn byw yng Nghymru wedi'u gwneud i'r Cynllun.

# 7. Y camau nesaf

Yn ogystal â'i waith parhaus ar y Cynllun yng Nghymru, cytunodd y Pwyllgor ym mis Ionawr 2022 y byddai'n gwneud y canlynol fel mater o drefn:

- cyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd ar hawliau dinasyddion Ewrop yng Nghymru, sydd ar gael ar wefan y Senedd; a
- rhannu ei adroddiadau â'r Awdurdod Monitro Annibynnol.